



FLVC

Flintshire Local Voluntary Council

CGLISFf

Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir Fflint

Adroddiad Effaith Blynyddol 2020/21

**Cefnogi, Hyrwyddo a
Datblygu y Sector
Gwirfoddol a
Chymunedol**

EIN HYMDDIRIEDOLWYR

o fis Ebrill 2020

Paul Hinchliffe Cadeirydd
Barbara Roberts Is-gadeirydd
Wendy Carter
Pip Perry MBE
Liz Holland
Marjorie Thomson
John Hatton
Tim Byram
Jane Styles
Rhiannon Bidwell
Bill Brereton
Lee Tiratira

Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint
CORLAN
Uned 3 Parc Busnes yr Wyddgrug
Ffordd Wrecsam
YR WYDDGRUG
Sir y Fflint CH7 1XP

☎ 01352 744000
✉ info@flvc.org.uk

www.flvc.org.uk

🐦 @FLVCnews 🌐 flvcpage

Cwmni Cyfyngedig drwy Warant Rhif 3301204
Rhif Elusen Gofrestredig 1062644

EIN STAFF

o fis Ebrill 2020

Ann Woods Prif Swyddog
Sarah Owens Rheolwr Datblygu Trydydd Sector
(Gwasanaethau Craidd)

Canolfan Gwirfoddolwyr

Jan Owen Rheolwr Datblygu Trydydd Sector
(tan fis Mehefin 2020)
Debbie Long Uwch Swyddog Datblygu Gwirfoddoli
Claire Worrall Swyddog Datblygu Gwirfoddoli
Kris Kordiak Swyddog Datblygu Gwirfoddoli

Cyllid a Llywodraethiant

Shaun Darlington Rheolwr Datblygu Trydydd Sector
(Cyllid a Llywodraethiant)
Heather Hicks Swyddog Allgymorth Cyllid

Tîm Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Millie Boswell Rheolwr Datblygu Trydydd Sector
(Iechyd a Gofal Cymdeithasol)
Kate Newman Rheolwr Datblygu Trydydd Sector
(Iechyd a Gofal Cymdeithasol)
Kate Howard Cydlynnydd Trydydd Sector (SPoA)
Dafydd Gwynedd Cydlynnydd Trydydd Sector (SPoA)
Joanne Overton-Jones Cydlynnydd Trydydd Sector
(Hyb Help Cynnar)
Nia Lloyd-Williams Cydlynnydd Trydydd Sector
(SPoA a Hyb Help Cynnar)
Hannah Dovey Cydlynnydd Trydydd Sector
(Pobl Ifanc a Theuluoedd Ifanc)

Tîm Gweinyddol

Karen Peters Gweinydddydd Iechyd a Gofal
Cymdeithasol/Sicrwydd Ansawdd/Adnoddau Dynol
Mel Salisbury Gweinydddydd Cyfathrebu a Chyllid

CYNGOR GWIRFODDOL LLEOL SIR Y FFLINT

Rhan o Cefnogi Trydydd Sector Cymru



Cefnogi Trydydd
Sector **Cymru**

Third Sector
Support **Wales**

CEFNDIR...

CYNGOR GWIRFODDOL LLEOL SIR Y FFLINT yw'r sefydliad ymbarél a chefnogi annibynnol ar gyfer grwpiau gwirfoddol a chymunedol yn Sir y Fflint. Mae'n un o 19 Cyngor Gwirfoddol Sirol yng Nghymru a dechreuodd weithredu yn 1997. Mae Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint yn elusen gofrestredig (1062644) ac yn gwmni cyfyngedig (3301204). Mae ganddo hyd at 15 o gyfarwyddwyr ymddiriedolwyr a ddaw'n bennaf o'r sector gwirfoddol lleol gyda 16 o staff, rhan-amser a llawn-amser. Ers 2008 bu'n seiliedig yn CORLAN ar Barc Busnes yr Wyddgrug. Mae ganddo dros 220 aelod a daw ei gyllid o amrywiaeth o ffynonellau yn cynnwys Llywodraeth Cymru, Cyngor Sir y Fflint, Teuluoedd yn Gyntaf a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Rydym yn rhan o seilwaith Cefnogi Trydydd Sector Cymru a gyllidir gan Lywodraeth Cymru. Y nod a rannwn yw galluogi'r trydydd sector a gwirfoddolwyr ar draws Cymru i gyfrannu'n llawn at lesiant unigolion a chymunedau, yn awr a hefyd ar gyfer y dyfodol.

Mae Cefnogi Trydydd Sector Cymru yn rhwydwaith cefnogi ar gyfer yr holl drydydd sector yng Nghymru. Mae'n cynnwys 19 o gyrff cefnogi lleol a rhanbarthol ar draws Cymru, y Cynghorau Gweithredu Sirol a'r corff cefnogi cenedlaethol, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru. Rydym yn gweithio gyda dinasyddion, gwirfoddolwyr a grwpiau trydydd sector i ddynodi a thrin yr hyn sy'n bwysig iddynt. Rydym yn cyflawni y nod a rannwn i gydweithio gyda phartneriaid allweddol eraill ar draws y trydydd sector, y sector cyhoeddus, busnes, ymchwil a chyllidwyr.



Mae deall y trydydd sector a'i gyfraniad i'n cymunedau a bywydau pobl yn rhoi sylfaen gryf i fy sefydliad ar gyfer gweithio partneriaeth a gwella gwasanaethau.



Mae gennym bedwar piler gweithgaredd sy'n ffurfio ein cynnig cyffredinol, sef:

- Gwirfoddoli
- Llywodraethiant da
- Cyllid cynaliadwy
- Ymgysylltu a dylanwadu



Mae gan ein gwaith ffocws eang ar themâu cyffredin:

- Gwybodaeth a chyngor
- Dysgu a datblygu
- Rhwydweithio a chyfathrebu
- Llunio, dylanwadu ac adeiladu'r cyfalaf cymdeithasol a chydnerthedd y sector
- Codi proffil y sector



Mae Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint yn bartner gwychmewn nifer o feysydd gwaith a phrosiectau. Rwy'n gwirioneddol fwynhau'r cydweithio ac mae'r tîm yn rhagorol gydag agwedd gallu-gwneud ac angerdd am bobl a newid cadarnhaol. Diolch i chi.



ADRODDIAD BLYNYDDOL CYNGOR GWIRFODDOL LLEOL SIR Y FFLINT 2021



Ddeuddeg mis yn ôl dywedais y gobeithiwn y gallem gwrdd wyneb yn wyneb eto yn ein CCB nesaf ond ysywaeth, fel y gwyddom i gyd, nid yw Covid-19 wedi diflannu. Felly rydym yn cyfarfod yn rhithiol unwaith eto ar gyfer CCB 2021.

Bu'n sicr yn flwyddyn anodd i bawb – unigolion, mudiadau a chymunedau. Bu'r heriau yn enfawr ond bu'r canlyniadau ar gyfer unigolion a sefydliadau er clod enfawr i Sir y Fflint.

Mae llawer o heriau yn sgil gweithio o bell ond mae wedi galluogi rhoi mwy o amser i bartneriaethau strategol gwrdd yn fwy rheolaidd, gan fod diffyg daearyddiaeth/teithio wedi ei gwneud yn haws i gynllunio cyfarfodydd ar Zoom/Teams.

Ymatebodd staff y Cyngor Gwirfoddol i'r holl newidiadau sydd wedi eu hwynebu ac maent wedi addasu i gyflawni beth bynnag oedd ei angen. Maent wedi parhau i weithio'n dda gyda sefydliadau partner i gyflwyno cefnogaeth i'r gymuned, ym meysydd Gwirfoddoli, Cyllid, Llywodraethiant neu fynediad i gymorth lechyd a Llesiant. Bu'n sicr yn rhaid i'r Trydydd Sector ymateb i'r her a gwnaethant hynny yn wych a gwneud eu marc. Mae'r Cyngor Gwirfoddol wedi ymwneud â dosbarthu cyllid Llywodraeth Cymru i gynorthwyo sefydliadau i ateb heriau'r pandemig.

Felly mae'n rhaid i mi ddiolch a llongyfarch holl staff Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint am yr hyn y maent wedi'i gyflawni dros y 12 mis diwethaf.

Rydym yn parhau i weithio'n dda gyda llawer o sefydliadau o'r Cyngor Sir a'r Bwrdd Iechyd i lawer o rai eraill.

Yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol byddaf yn cyrraedd diwedd fy nhair blynedd fel Cadeirydd Bwrdd Ymddiriedolwyr Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint a hoffwn dalu teyrnged i aelodau'r Bwrdd am y ffordd y gwnaethant fy nghefnogi fi, Ann a'r holl dîm staff. Bu'n anrhydedd fawr i fi gadeirio'r sefydliad hwn.

Hoffwn ddymuno'n dda i bawb ar gyfer heriau'r dyfodol.

Paul Hinchliffe Cadeirydd Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint Medi 2021

ADRODDIAD Y PRIF SWYDDOG

Hon yw fy wythfed mlynedd i gyflwyno Adroddiad Blynyddol Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint ac rwy'n parhau i'w hystyried yn fraind i gynrychioli a chefnogi gwaith gwirfoddolwyr a grwpiau cymunedol ledled Sir y Fflint. Fe wnaeth y byd yr ydym yn byw ynddo newid cymaint yn 2020 wrth i bandemig Covid 19 afael – roedd ymateb gwirfoddolwyr a grwpiau cymunedol i helpu pobl eraill yn rhyfeddol. Bu ein staff, gan addasu i weithio adref, yn gweithio'n ddiflino i helpu'r sector a rhai sydd angen cymorth.

Yn ein rôl fel Cyngor Gwirfoddol Sirol rydym yn parhau i helpu i gydlynu:

- Cynigion o gymorth am help (drwy ein tîm Canolfan Gwirfoddolwyr)
- Ceisiadau am help gan breswylwyr Sir y Fflint (drwy ein Tîm Llesiant a Phresgripsiynu Cymdeithasol)
- Cymorth i grwpiau Trydydd Sector a addasodd eu gwasanaethau/trefniant i helpu preswylwyr lleol (drwy gymorth Cyllid a Llywodraethiant)
- Cymorth i 'ail-agor' gwasanaethau fel mae canllawiau'r Llywodraeth yn caniatáu
- Adeiladu ar y gydnabyddiaeth o rôl hanfodol y trydydd sector – drwy ymgysylltu a dylanwadu ar lefel strategol



Fy niolch diffuant i bawb sy'n gysylltiedig â Chyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint, yn cynnwys ein Staff, Ymddiriedolwyr, Gwirfoddolwyr ac Aelodau ar ran holl breswylwyr Sir y Fflint.

Wrth edrych i'r dyfodol, rydym yn canolbwyntio ar gefnogi grwpiau'r Trydydd Sector a safleoedd cymunedol wrth iddynt ddechrau dychwelyd i ddarparu gwasanaethau wyneb-i-wyneb a chynyddu i'r eithaf yr effaith y gall gwirfoddolwyr ei sicrhau wrth gefnogi ein cymunedau lleol.

Gyda diolch

Ann Woods Prif Swyddog Cyngor Gwirfoddoli Lleol Sir y Fflint



“

Cefnogaeth werthfawr iawn gan Gyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint, mae'r cyfarfodydd rhwydweithio trefnwyr gwirfoddol wedi bod yn neilltuoel o ddefnyddiol.

”

GWIRFODDOLI

Mae tîm ein Canolfan Gwirfoddolwyr yma i:

- Hyrwyddo arfer da ac arloesedd mewn gwirfoddoli – i alluogi mwy o bobl i gymryd rhan a chynyddu effaith gwirfoddoli;
- Rhoi gwybodaeth, arweiniad a chyfeirio – ar gyfer unigolion i wirfoddoli ac i sefydliadau ddatblygu lleoliadau gwirfoddoli da;
- Rheoli cronfa ddata o gyfleoedd gwirfoddoli – ar gyfer trefnu a rheoli gwirfoddoli;
- Hwyluso rhwydweithiau a hyfforddiant – ar gyfer dysgu, rhannu a gwella profiad gwirfoddoli yn barhaus;
- Trefnu digwyddiadau, hyrwyddiad a chydabyddiaeth – i annog a dathlu llwyddiant gwirfoddolwyr a hyrwyddo cyfraniad gwirfoddoli i lesiant Cymru;
- Gweinyddu a hyrwyddo rhaglenni grant – i ddatblygu capasiti sefydliadau i recriwtio a chefnogi gwirfoddolwyr.



BETH WNAETHOM NI EI GYFLAWNI?

Bu gan ein Canolfan Gwirfoddolwyr rôl allweddol yn Ymateb ac Adferiad Covid 19 yn Sir Fflint. Fe wnaethom alluogi dros 200 o wirfoddolwyr i gael eu defnyddio ledled Sir y Fflint yn ystod y pandemig i gefnogi unigolion, mudiadau a'r gymuned drwy ddosbarthu offer diogelu personol, casglu a dosbarthu presgripsiynau/bwyd, cymorth anghlinigol i'r rhaglen brechu i gefnogi meddygfeydd teulu a chyfleoedd cyfeillio un-i-un ar gyfer unigolion bregus ac ynysig.

“Cysiau rhagorol, bob amser yn broffesiynol bob amser yn gefnogol.”



Dros y flwyddyn cafodd 468 o unigolion eu cefnogi i gael mynediad i gyfleoedd gwirfoddoli



Cafodd dros 70 o fudiadau yn Sir y Fflint eu cefnogi i ddatblygu arfer da mewn rheoli gwirfoddolwyr

Cynhaliwyd 5 Fforwm Rhwydwaith gwirfoddolwyr yn ystod y dyfodol gyda chyfanswm o 56 o gyfranogwyr yn mynychu



Mynychodd y tîm dros 75 digwyddiad/cyfarfod i godi ymwybyddiaeth a hyrwyddo gwirfoddolwyr ar draws Sir y Fflint a thu hwnt



Galluogodd ein prosiectau Cefnogi Gwirfoddoli 102 unigolyn (gydag anghenion cymorth ychwanegol) i gael mynediad i gymwysterau gydag achrediad a sesiynau blasu gwirfoddoli ar draws Sir y Fflint

“Mae staff y Ganolfan Gwirfoddolwyr wedi bod yn neilltuol o gefnogol a bob amser wedi bod ar gael gydag unrhyw gwestiynau oedd gennyf, gan roi ystod o wybodaeth i fi.”

LLYWODRAETHU DA

Prif nod gwaith Cefnogi Trydydd Sector Cymru ar; lywodraethiant da yw i'r rhai sy'n ymwneud â rhedeg sefydliadau trydydd sector arwain eu sefydliadau yn effeithlon a chynnal safonau uchel o lywodraethiant.

Ein deilliannau yw i'r rhai sy'n ymwneud â rhedeg sefydliadau trydydd sector i:

- gael mynediad i wybodaeth, cyngor a chymorth ar; lywodraethiant da
- bod yn fwy hyderus wrth arwain eu sefydliadau;
- gwella eu gallu i recriwtio a chadw ymddiriedolwyr medrus
- bod â sgiliau uwch i arwain eu sefydliadau.



Beth wnaethom ni ei gyflawni?




Derbyniodd ein gwefan dros 28,000 ymwelydd a chafodd gwybodaeth ei lledaenu i sefydliadau drwy e-grwpiau

“

Bu'r gefnogaeth a gawsom yn gynhwysfawr iawn. Fe wnaeth yr wybodaeth ddofn sydd gan eich swyddogion argraff fawr arnom. Bu'r ystod datrysiadau a gynigiwyd a'r gefnogaeth barhaus yn wych. Diolch yn fawr.

”

Rydym wedi gweithio gyda Llywodraeth Cymru a chydweithwyr mewn awdurdodau lleol i gefnogi sefydliadau a safleoedd cymunedol gyda'u polisi ac ymarfer ar gyfer 'ail agor' wrth i gyfyngiadau Covid 19 lacio



45 mudiad wedi eu cefnogi gyda materion; lywodraethiant

274 ymholiad ymddiriedolwyr wedi eu derbyn ac ymateb iddynt



CYLLID CYNALIADWY

Mae ein gwasanaeth Cymorth Cyllido yn anelu i helpu

- Sefydliadau trydydd sector i fod yn effeithlon wrth sicrhau ac ysgogi'r adnoddau y maent eu hangen i oroesi a thyfu
- Sefydliadau trydydd sector i fod yn gydnherth a bod â'r sgiliau, gwybodaeth a chapasiti i gynnal eu sefydliadau



"Bu mynediad Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint i gyllid cyfredol ac argaeledd grantiau, a chynghor ar feini prawf cymhwyster yn werthfawr tu hwnt"

Beth wnaethom ni ein gyflawni?



Cefnogi 124 o fudiadau cymunedol a gwirfoddol i gael mynediad i dros £607,900.00 o nifer o ffynonellau cyllid

Cynnal digwyddiad digidol Cwrdd â'r Cyllidwr gyda Chronfa Gymunedol y Loteri Gymunedol a gwneud nifer o apwyntiadau digidol ar gyfer cymorth un-i-un



“

Ar ôl gweithio mewn partneriaeth gyda Chyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint yn ystod y pandemig sylweddolais faint o gefnogaeth y maent yn ei roi go iawn i fudiadau a grwpiau gwirfoddol yn y sir. Mae'n effeithlon a threfnus iawn.

”



Gweinyddu 7 cronfa grant (dyfarnwyd cyfanswm o 97 grant unigol):

- Cist Gymunedol Cyngor Sir y Fflint, dyfarnu 21 grant yn gyfanswm o £14,581.63
- Cronfa Trawsnewid Help Cynnar, dyfarnu 15 grant yn gyfanswm o £131,474
- Cronfa Argyfwng Gwasanaethau Gwirfoddol, dyrannu 31 grant yn gyfanswm o £26,591
- Cronfa Argyfwng Covid Comic Relief, dyfarnu 14 grant yn gyfanswm o £27,475
- Cronfa Cyfeillio Sir y Fflint (Cyfaill mewn Angen), dyfarnu 6 grant yn gyfanswm o £12,500
- Cronfa Anabledd Dysgu Sir y Fflint, dyfarnu 5 grant yn gyfanswm o £5,000
- Grantiau leuenctid, dyfarnu 5 grant yn gyfanswm o £5,000

YMGYSYLLTU a DYLANWADU



Fel aelod o Cefnogi Trydydd Sector Cymru gweithiwn i sicrhau bod

- Cyrff cyhoeddus yn cydnabod gwerth cyfraniad presennol a chyfraniad posibl sefydliadau Trydydd Sector
- Sefydliadau Trydydd Sector â rhan weithgar wrth ymgysylltu a gweithio gyda phobl a cymunedau, yn cynnwys grwpiau na chânt eu clywed yn aml;
- Sefydliadau Trydydd Sector â'r sgiliau a'r gallu i ddylanwadu a llunio polisi yn effeithlon ar bob lefel;
- Sefydliadau Trydydd Sector yn ymgysylltu'n ystyrlon gyda'i gilydd ac yn eu tro gyda chyrff cyhoeddus mewn datblygu polisi a chyd-gynhyrchu gwasanaethau;
- Lleisiau unigolion a grwpiau yn llywio a dylanwadu ar ddatblygiad polisi, cynllunio a darparu gwasanaeth.

“

Bu Cyngor Gweithredu Lleol Sir y Fflint yn bartner hollbwysig yn ymateb COVID-19 i'r cyngor ac mae wedi gweithio gyda Gwasanaethau Cymdeithasol ar yr ymateb strategol i'r pandemig.

”

“

Cydweithio, gweledigaeth a chefnogaeth gwyb.

”

Yr hyn y gwnaethom ei gyflawni

- Cwrdd yn rheolaidd gyda phartneriaid Statudol a Trydydd Sector fel rhan o'r ymateb a chynllunio adferiad lleol, rhanbarthol a chenedlaethol i Covid 19
- Gweithio gyda phartneriaid i gydlyn cysylltiadau'r Trydydd Sector gyda'r Gwasanaeth Profi Olrhain a Diogelu
- Gweithio gyda Chyngor Sir y Fflint a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i ddylanwadu ar ymarfer caffael ar gyfer dull gweithredu aml-asiantaeth at wasanaethau cyhoeddus
- Arwain ar waith fel rhan o ffrydiau gwaith 'Cymunedau Cryf' Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir y Fflint a Wrecsam ar y cyd
- Gweithio gyda phartneriaid Cefnogi Trydydd Sector Cymru ar y Strategaeth Dysgu a Datblygu genedlaethol, ffrwd waith Effaith a Diogelu Cymuned Ymarfer
- Cysylltu â chyfarfodydd cynllunio strategol rhanbarthol yng nghyswllt Datblygu Gweithlu a Dysgu Oedolion yn y Gymuned
- Gweithio gyda gweithgor cenedlaethol yn ymchwilio opsiynau ar gyfer gwirfoddoli mewn lechyd a Gofal Cymdeithasol, a datblygu rhaglen beilot yn Sir y Fflint i gefnogi'r sector gofal.

IECHYD a GOFAL CYMDEITHASOL

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn cyllido swyddi allweddol Hwyluswyr Iechyd a Gofal Cymdeithasol o fewn pob Cyngor Gwirfoddol Sirol yng Ngogledd Cymru. Mae'r swydd hon yn ddolen strategol allweddol rhwng sefydliadau Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Thrydydd Sector. Mae gan Gyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint hefyd dîm Presgripsiynu Cymdeithasol, sy'n gweithio gyda chydweithwyr yn y sector statudol i gysylltu preswylwyr Sir y Fflint gyda gwasanaethau iechyd a llesiant seiliedig yn y gymuned.



Cyfrannu at gynllunio ymateb ac adferiad lleol, rhanbarthol a chenedlaethol ar Covid-19 ar lefel strategol a gweithredol

Gweld cynnydd o 700% mewn galwadau drwy'r Un Pwynt Mynediad ym mis Ebrill a mis Mai oherwydd y pandemig



Ehangu ein Tîm Presgripsiynu Cymdeithasol o 2 i 5 aelod o staff

Darparu hyfforddiant Trydydd Sector i staff Profi Olrhain a Diogelu



Yn 2020/21 fe wnaethom

Cydlynu ymateb Trydydd Sector i gyfannu at waith y Tîm Gweithredu Lleol (Iechyd Meddwl)



Datblygu pecyn pwrpasol o gymorth gwirfoddolwyr i helpu o fewn gosodiadau Gofal Cymdeithasol

Cynnal cyfarfodydd Rhwydwaith Iechyd a Gofal Cymdeithasol mewn cysylltiad â AVOW yn Wrecsam, gan ddod â darparwyr o'r Trydydd Sector a Statudol ynghyd i ddysgu, rhannu ac ymgynghori ar strategaethau aml-asiantaeth allweddol



“

Gair i ddiolch i chi am eich holl waith, mae'n wirioneddol gadarnhaol i fi weld ein gwasanaethau a'n mudiadau yn cydweithio mor dda.”


“Hoffwn ddiolch yn fawr i chi am yr holl gefnogaeth y gwnaethoch ei chynnig yn ystod y cyfnod yma. Bu'n wirioneddol ddefnyddiol a rhoddodd gyfle i ni gysylltu, rhannu syniadau a dysgu gan ein gilydd.

”

CRYNODEB CYFRIFON

Am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2021

Sut y caiff Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint ei ariannu



Cyfanswm Incwm yn ystod 2020/21 **£734,059**

Gwariant 2019/20 a 2020/21

Costau Staff
Costau Safle
Dibrisiant
Treuliau ACM
Ffioedd Proffesiynol
Gwirfoddolwyr a Hyfforddiant
Contractwyr ac Ymgynghorwyr
Yswiriant ac Indemniadau
Costau Llyworaethiant
Dosbarthu Grantiau

CYFANSWM

2021

324,939
55,207
3,221
1,041
6,026
10,685
17,925
2,047
4,317
210,813

£636,221

2020

330,909
78,934
2,365
3,227
5,317
8,731
2,800
2,520
4,933
29,271

£469,007

Cyfanswm Gwariant yn ystod 2020/21 **£636,221**